



Tasg Arbennig – Ein Hawliau

Cynllun gwers / gweithgaredd i gyflwyno plant yng Nghyfnod Allweddol 4 i hawliau pobl ifanc a rôl Comisiynydd Plant Cymru (ComPlantCymru). Gall y sesiwn hon gael ei defnyddio i gychwyn Her Gymunedol y Comisiynydd Plant, fel rhan o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru CA4.

Adnoddau

- Taflen adnoddau i'w dosbarthu ar ddiwedd y cynllun gwers, papur A4 ac A3 glân ar gyfer y gweithgareddau
- [Ffilm i ddangos pwy yw Sally](#)
- [Poster hawliau plant](#)

Amcanion Dysgu

- Bod y disgyblion yn ystyried beth yw hawliau (CCUHP)
- Bod y disgyblion yn archwilio pa hawliau maen nhw'n eu cael (mynediad) neu ddim yn eu cael (atal mynediad)
- Bod y disgyblion yn archwilio cydbwysio hawliau
- Bod y disgyblion yn deall pwy yw Sally Holland a rôl ei swyddfa
- Bod y disgyblion yn ystyried eu rôl nhw a rôl oedolion wrth greu amgylcheddau sy'n parchu hawliau

Geirfa Allweddol

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP): y ddogfen ryngwladol sy'n cyflwyno hawliau pawb o dan 18 oed.

Hawliau: "Pethau rydych chi eu hangen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel"

Comisiynydd Plant Cymru: "Oedolyn yng Nghymru yw Sally Holland, a'i gwaith hi yw helpu holl blant a phobl ifanc Cymru i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel"

Negeseuon Allweddol

Dylai pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gael y pethau sydd eu hangen amyn nhw i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

Dylai pob oedolyn wneud yn siŵr eu bod nhw'n cefnogi plant a phobl ifanc i gael eu hawliau.

Mae Sally Holland, y Comisiynydd Plant, yn sefyll i fyny dros holl blant a phobl ifanc Cymru

Cyflwyniad: Beth yw Hawliau Pobl Ifanc?

- Esboniwch wrth y disgyblion eich bod chi'n mynd i siarad am hawliau pobl ifanc: "y pethau sydd eu hangen amyn nhw i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel"
- Dangoswch NAILL AI y fideo fer Hawliau Plant, Ha! yn Gymraeg <https://vimeo.com/142124810> ('Children's Wrongs' yn Saesneg <https://vimeo.com/142124812>)
- A/NEU Geiriau Cywir, Trefn Anghywir yn Gymraeg <https://vimeo.com/142124814> (Right Words Wrong Order yn Saesneg <https://vimeo.com/142124811>)
- Esboniwch fod y fideo[s] yn trafod rhestr o hawliau o'r enw CCUHP. Dyma'r pethau sydd eu hangen arnoch chi i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.
- Dywedwch eich bod chi'n mynd i drafod pa hawliau maen nhw'n eu profi yn yr ysgol, gofynnwch iddyn nhw fod yn onest. Esboniwch y byddwch chi'n darllen hawl, ac os byddan nhw'n meddwl eu bod nhw'n cael hynny yn yr ysgol, dylen nhw roi bawd i fyny am 'ydw', bawd i lawr am 'nac ydw', a bawd yn y canol am 'falle'.

Ydych chi'n cael eich hawl...

1. I gael gwrandawriad a'ch cymryd o ddifri? Erthygl 12
2. I ddysgu a mynd i'r ysgol? Erthygl 28
3. I deimlo'n ddiogel? Erthygl 19
4. I fod y gorau gallwch chi fod? Erthygl 29
5. I gael bwyd da a dŵr glân? Erthygl 24
6. I ymuno â chlybiau a grwpiau? Erthygl 15
7. I fod ag enw a chenedl? Erthygl 7

8. I wybod beth yw eich hawliau? Erthygl 42

- Gofynnwch iddyn nhw ystyried beth sy'n eu hatal nhw a phlant eraill rhag cael eu hawliau a rhoi adborth? Esboniwch fod gan BOB PLENTYN 0-18 oed ar draws y byd bob un o'r 42 hawl yma (sy'n cael eu galw'n Erthyglau).

Prif Elfen: Creu Ysgol eich Breuddwydion

- Rhannwch y disgyblion yn grwpiau llai o 4-6 a [rhowch boster hawliau](#) a dalen A3 lân o bapur i bob un. Dosbarthwch y daflen Ysgol eich Breuddwydion (mae yn y ddogfen hon o dan amlinelliad y wers) i bob grŵp a gofynnwch iddyn nhw gwblhau'r gweithgaredd.
- Gofynnwch i bob grŵp roi adborth ar eu syniadau, neu gallech arddangos y posteri o'ch cwrpas i greu 'oriel' a gofyn i'r disgyblion gerdded o amgylch yr oriel. Beth yw'r prif nodweddion tebyg rhwng syniadau'r grwpiau?
- Gofynnwch i'r disgyblion "Mwy o bwy sydd yn y dosbarth yma – oedolion neu bobl ifanc?" Yr ateb fydd pobl ifanc bob tro, felly gofynnwch, "Pwy arall sydd angen gwneud yn siŵr eich bod chi'n cadw'n hapus, yn iach ac yn ddiogel yn y dosbarth yma?" Anogwch y disgyblion i gyfeirio atynt eu hunain. Esboniwch fod bob hawl yn bwysig, ond bod angen i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n gallu cydbwysu ein hawliau. Mae'r gweithgaredd nesaf yn gyfle i archwilio hyn.

Datblygu: Sut rydyn ni'n cydbwysu hawliau?

- Ysgrifennwch neu printiwch bob un o'r cwestiynau isod ar daflen A4 a rhoi un ohonynt i grwpiau bach ei ystyried (gallan nhw ddefnyddio eu posteri hawliau plant hefyd i weld yr hawl). Gallwch chi ddatblygu'r gweithgaredd yma i greu carwsél cwestiynau os bydd hynny'n briodol.

Cwestiynau:

- Sut gallwch chi a phobl eraill gydbwysu eich hawl i **Erthygl 31** (hawl i chwarae a hamdden) â'ch hawl i **Erthygl 28** (hawl i addysg)?
- Sut gallwch chi ac eraill gydbwysu eich hawl i **Erthygl 16** (hawl i breifatrwydd) ag **Erthygl 19** (hawl i gael eich amddiffyn rhag pob math o gam-drin)?
- Sut gallwch chi ac eraill gydbwysu eich hawl i **Erthygl 15** (hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau) ag **Erthygl 29** (hawl i ddatblygu eich sgiliau a'ch doniau'n llawn).
- Sut gallwch chi ac eraill gydbwysu eich hawl i **Erthygl 13** (cael hyd i

wybodaeth a rhoi eich barn – mae hyn yn cynnwys ar-lein) ag **Erthygl 19** (eich hawl i gael eich amddiffyn rhag pob math o gam-drin)?

- Dylai pob grŵp roi adborth ar eu trafodaeth ynghylch un o'r cwestiynau.
- Gofynnwch i'r disgyblion oes angen oedolion arnyn nhw i'w helpu i gydbwysu neu gael eu hawliau? Esboniwch fod oedolion yn gyfrifol am sicrhau eu bod nhw'n cael eu hawliau, a bod rhaid iddyn nhw weithio er eu lles pennaf (Erthygl 3).
- Rhowch ddarn glân o bapur A4 i bob disgybl a gofynnwch iddyn nhw dynnu llinell o amgylch eu llaw a defnyddio pob bys i dynnu llun oedolyn sy'n gallu eu helpu i gael mynediad i'w hawliau.

Sesiwn Lawn: Sut galla i fod yn rhan o waith y Comisiynydd Plant?

- Soniwch am yr oedolion y mae'r dosbarth wedi eu rhestru, ac esboniwch fod Sally Holland, y Comisiynydd Plant, yn rhywun arall y gallan nhw ei hychwanegu at eu taflen – dangoswch y fideos canlynol i gyflwyno Sally a'i gwaith:
Pwy yw Sally: <https://www.youtube.com/watch?v=518ku6xDg2E&t>
Gwaith Sally: <https://www.youtube.com/watch?v=uWv8V2cw22w>
- Esboniwch fod rhaid i bobl ifanc wybod am eu hawliau i'w profi. Esboniwch fod gan Sally Holland brosiect o'r enw Llysgenhadon Myfyrwyr i roi'r gair ar led am hawliau. Manteisiwch ar y cyfle yma i gyflwyno Llysgenhadon Myfyrwyr eich ysgol ac esboniwch eu bod nhw'n helpu Sally i wneud ei gwaith trwy wneud y pethau yma:
 - Rhoi gwybod i eraill am hawliau
 - Rhoi gwybod i eraill am Sally Holland
 - Cyflawni tasg hawliau bob tymor – mae'r wers yma'n rhan o'r dasg hawliau y tymor yma!

AWGRYM GWYCH: **Dathlwch** eich gwaith yn y wers yma trwy drydar ar @complantcymru #EinHawliau. Byddwch chi hefyd yn cael hyd i syniadau gwyh am sut mae ysgolion eraill yng Nghymru yn addysgu a dysgu am hawliau trwy ddefnyddio ein hashnod twitter #Ein Hawliau

Adnoddau a Syniadau Estyn:

- 
- Gall eich disgyblion Cyfnod Allweddol Pedwar wneud Her Gymunedol y Comisiynydd Plant fel rhan o'u cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Byddai'r sesiwn yma'n ffordd wych o lansio'r prosiect. Cewch hyd i adnoddau a chanllawiau ychwanegol i bobl ifanc ar sut mae [cyflawni'r her yma](http://www.wjec.co.uk/qualifications/qualification-resources.html?subject=welshbaccalaureate&level=ks4NationalFoundation). Cewch hyd i Her y Comisiynydd Plant hefyd ar Fanc Heriau CBAC: <http://www.wjec.co.uk/qualifications/qualification-resources.html?subject=welshbaccalaureate&level=ks4NationalFoundation>
 - Cewch hyd i ragor o adnoddau am ddim sy'n trafod hawliau plant a phobl ifanc yma: <http://www.hawliauplant.cymru/index.php/plant-a-phobl-ifanc/resources>
- 

Adnodd i'w Ddosbarthu

Ysgol Eich Breuddwydion

Nod: Bwriad y gweithgaredd yma yw eich helpu i feddwl beth sydd ei angen ar ysgol i sicrhau bod pob person ifanc yn gallu profi eu hawliau.

Byddwch chi angen: Poster hawliau, pinnau ysgrifennu, papur [fflipsiart neu A3]

1. Penderfynwch ar enw i ysgol eich breuddwydion a thynnu llun ohoni.
2. Gan ddefnyddio eich poster hawliau, penderfynwch o fewn y grŵp pa 5 hawl yw'r pwysicaf i helpu'r ysgol i fod yn lle gwych (bydd angen i chi esbonio eich dewisiadau). Ysgrifennwch y rhain o amgylch amlinelliad eich ysgol.
3. Penderfynwch ar restr o bum rheol a fydd yn sicrhau bod eich ysgol yn rhywle lle mae pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ac ysgrifennwch y rheiny yn eich ysgol.

